**Jane Hutt AC / AM**
**Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth**
**Minister for Finance and Government Business**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/MA-P/JH/0496/15

Rhun ap Iorwerth AC
Aelod Cynulliad Ynys Môn
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

rhun.apiorwerth@assembly.wales

30 Hydref 2015

Annwyl Rhun,

Yn dilyn OAQ(4)0610(FIN) ynghylch cydweithredu rhwng Cymru ac Iwerddon mewn perthynas â rhaglenni Ewropeaidd (14 Hydref), gofynnoch a fyddwn yn addo ymrwymo i weithio'n agos gyda'r Dublin Port Company i gyflawni gwelliannau i fynediad porthladd Caergybi.

Rwyf wedi gofyn i fy swyddogion yn Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) i ystyried cyfleoedd posibl drwy'r ERDF a'r rhaglenni Cymru Iwerddon 2014-2020 ar gyfer gwella mynediad i'r porthladd yng Nghaergybi a chydweithredu â'r Dublin Port Company.

Mae'r rhaglen drawsffiniol Cymru Iwerddon yn cydnabod pwysigrwydd y llwybr môr rhwng Caergybi a Dulyn ond nid yw'r rhaglen yn ddigon eang i allu cynnig cymorth i ddatblygu seilwaith trafnidiaeth.

Gan nad oes cymorth uniongyrchol ar gyfer seilwaith porthladd yn rhaglenni 2014-2020 ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, byddai'n rhaid cysylltu gwella mynediad i'r porthladd yn uniongyrchol â buddsoddiadau yn ymwneud â'r A55. Rwyf yn deall bod swyddogion trafnidiaeth Llywodraeth Cymru eisoes yn ailedrych ar opsiynau ar gyfer gwella mynediad i'r porthladd o'r A55 a bod y Gweinidog Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi neilltuo cyllid i ganfod a oes achos busnes cadarn i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

Jane

**Jane Hutt AC / AM**
Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
Minister for Finance and Government Business

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Jane.Hutt@wales.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.